OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif 1232 (Cy. 218)

# CYFLOGAETH A HYFFORDDIANT, CYMRU

## Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Tachwedd 2023* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru - - - -* | *20 Tachwedd 2023* |
| *Yn dod i rym - -* | *11 Rhagfyr 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir gan adran 29(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009(**1**).

Yn unol ag adran 29(2) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru fel y'i haddesir gan y Gorchymyn hwn yn cydymffurfio ag adran 31.

### Enwi a dod i rym

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2023 a daw i rym ar 11 Rhagfyr 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru" yw'r ddogfen y rhoddir effaith iddi gan erthygl 2 o Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013(**2**).

### Addasu

**3.** Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru yn cael effaith yn ddarostyngedig i'r addasiadau a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 2009 p. 22.
(**2**) O.S. 2013/1192 (Cy. 128) fel y'i haddaswyd gan O.S. 2016/930 (Cy. 229).

*Vaughan Gething*
Gweinidog yr Economi, un o Weinidogion Cymru

17 November 2023

## YR ATODLEN

Erthygl 3

### Addasiadau i Fanyleb Safonau Prentisiaethau Cymru

**1.** Yn lle paragraff 1 rhodder—

> "**1.** Mae Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru ("SASW") yn nodi'r gofynion sylfaenol i'w cynnwys mewn fframwaith prentisiaeth Cymreig cydnabyddedig. Mae cydymffurfio â'r SASW yn un o ofynion statudol Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009. Mae'r fersiwn hon yn ymgorffori'r addasiadau a wnaed i'r SASW wreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Mai 2013 a'r addasiadau a wnaed yn 2016.
>
> Mae'n ymgorffori addasiadau er mwyn caniatáu cymwysterau "procsi" ychwanegol fel dewis arall cydnabyddedig yn lle Sgiliau Hanfodol fel y manylir arnynt o dan bob lefel fframwaith prentisiaeth, ac mae'n cynnwys cynnig mwy cynhwysol i bobl ag anawsterau ac anableddau dysgu er mwyn ehangu cyfranogiad, gan agor y gofynion mynediad o ran sgiliau hanfodol ar gyfer lefelau 2 a 3.
>
> Mae'n cynnwys adran newydd ar brentisiaethau gradd a phroffesiynol (lefelau 6 a 7), sy'n dileu'r gofynion o ran sgiliau hanfodol ar gyfer prentisiaethau ar y lefel hon.
>
> Mae canllawiau cyfredol wedi eu cyhoeddi mewn dogfen ar wahân. Rhaid i Awdurdodau Cyhoeddi Cymru roi sylw i'r canllawiau cyfredol hyn wrth wneud penderfyniad ynghylch a yw cyflwyniad fframwaith yn cydymffurfio â'r SASW.
>
> Mae'r addasiadau i'r SASW wedi eu gwneud drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru."

**2.** Yn lle paragraff 2 rhodder—

> "**2.** Rhaid i fframwaith prentisiaeth bennu ei lefel gan ddefnyddio'r disgrifyddion lefel cenedlaethol a ddisgrifir yn Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru ("FfCChC")."

**3.** Yn lle paragraff 3 rhodder—

> "**3.** Rhaid i fframwaith fod ar Lefel 2 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth Sylfaen, ar Lefel 3 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth, ar Lefel 4 neu 5 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth Uwch ac ar Lefel 6 neu 7 i fod yn gymwys fel Prentisiaeth Gradd neu Broffesiynol."

**4.** Yn lle paragraff 6 rhodder—

> "**6.** Rhaid i fframwaith fod yn 38 o gredydau o leiaf, heb gynnwys credydau sgiliau hanfodol, ond pan fo'n briodol, gall fod yn fwy na hyn; mewn sawl achos bydd fframweithiau gryn dipyn yn fwy na 38 o gredydau. Ni all fframwaith fod mor gul fel nad yw ond yn berthnasol i weithle penodol lle yr enillwyd y brentisiaeth."

**5.** Yn lle paragraff 10 rhodder—

> "**10.** Bydd y datblygwr fframwaith yn penderfynu ar gydbwysedd y credydau rhwng cymwyseddau galwedigaethol a chymwysterau gwybodaeth dechnegol perthnasol. Fodd bynnag, rhaid i'r fframwaith bennu:
>
> (a) o leiaf 19 o gredydau a gyflawnwyd o gymhwyster ar sail cymhwysedd galwedigaethol neu elfen cymhwysedd cymhwyster integredig, sy'n ymwneud yn benodol â'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth ac sy'n seiliedig ar y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu, lle nad ydynt yn bodoli, safonau proffesiynol ar gyfer y sector cyflogaeth y lluniwyd y fframwaith ar ei gyfer a rhaid iddo fod ar lefel sy'n adlewyrchu rôl y swydd; a
>
> (b) o leiaf 19 o gredydau a gyflawnwyd o gymhwyster gwybodaeth dechnegol neu elfen gwybodaeth cymhwyster integredig sy'n darparu'r wybodaeth dechnegol

a'r ddealltwriaeth o'r cysyniadau damcaniaethol sy'n ymwneud yn benodol â'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth i ategu cymhwysedd galwedigaethol. Rhaid i'r elfen cymhwyster gwybodaeth roi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad i'r prentis; neu

(c) o leiaf 19 o gredydau o gymhwyster cymwyseddau cyfatebol (nad ydynt yn rhai FfCChC) a gydnabyddir gan gorff proffesiynol ar gyfer Prentisiaeth Uwch ar Lefelau 4 neu 5 a Phrentisiaethau Gradd neu Broffesiynol Lefelau 6 neu 7 pan fo cwblhau prentisiaeth o'r fath yn llwyddiannus yn llwybr cydnabyddedig at gofrestru proffesiynol."

**6.** Yn lle is-baragraff 11(b) rhodder—

"(b) y cynnwys dysgu o gymhwyster cymwyseddau cyfatebol a gydnabyddir gan gorff proffesiynol ar gyfer Prentisiaeth Uwch a Phrentisiaeth Gradd a Phroffesiynol, pan fo cwblhau prentisiaeth o'r fath yn llwybr cydnabyddedig at gofrestru proffesiynol."

**7.** Ar ôl paragraff 16 mewnosoder—

"**16A.** Mae'n bosibl y bydd rhai prentisiaid ag anhawster dysgu neu anabledd dysgu yn gallu cyrraedd y safon alwedigaethol ond y byddant yn ei chael hi'n anodd cyflawni'r cymhwyster mewn Saesneg neu fathemateg ar y lefel sy'n ofynnol fel arfer. Disgwylir i ddarparwyr barhau i wneud pob ymdrech i helpu prentisiaid i gyrraedd y safonau hyn.

Fodd bynnag, gan gydnabod y rhwystrau i gyfranogiad y gall y gofynion hyn eu peri i berson ag anhawster neu anabledd dysgu, caniateir eithriadau ar gyfer prentisiaethau sylfaen a phrentisiaethau i'r gofynion sylfaenol ar gyfer Saesneg a mathemateg.

Bydd rhesymoldeb yr addasiad sydd i'w wneud yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y prentis a'i asesiad. Gall yr addasiad fod yn gymwys i un pwnc, neu i Saesneg a mathemateg ill dwy. Os nad yw'r addasiad ond yn cael ei gymhwyso i un pwnc, bydd y gofynion arferol ar gyfer y pwnc nas addaswyd yn parhau i fod yn gymwys. Gall y darparwr ystyried addasu'r gofynion sylfaenol am Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif fesul achos unigol pan fo'r **holl** amodau a ganlyn wedi eu bodloni:

— Mae gan y prentis naill ai fersiwn gyfredol neu fersiwn a ddyroddwyd yn flaenorol o Gynllun Datblygu Unigol (CDU), datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA), Cynllun Addysg, Iechyd a Gofal (AIG), neu Gynllun Dysgu a Sgiliau (CDS);
— Cynhelir asesiad â thystiolaeth sy'n dangos nad yw'r prentis, hyd yn oed gyda chymorth ac addasiadau, yn gallu cyflawni Saesneg neu fathemateg i'r lefel ofynnol o ganlyniad i'w anhawster dysgu neu ei anabledd dysgu;
— Rhaid i'r cyflogwr a'r darparwr ddisgwyl yn rhesymol y bydd y prentis yn gallu cyflawni'n llwyddiannus bob agwedd arall ar ofynion y brentisiaeth, dod yn gymwys yn alwedigaethol a chyflawni Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif yn y pynciau a addaswyd cyn diwedd ei brentisiaeth; ac
— Nid oes unrhyw ofynion mynediad sylfaenol ar gyfer y diwydiant penodol hwnnw."

**8.** Yn lle paragraff 19 rhodder—

"**19.** Gall fframwaith Prentisiaeth Uwch ar Lefelau 4 neu 5 neu Brentisiaeth Gradd neu Broffesiynol Lefelau 6 neu 7 bennu cymwysterau proffesiynol ychwanegol fel y'u cydnabyddir gan y sector os ydynt yn rhoi cymhwystra ar gyfer statws proffesiynol."

**9.** Yn lle paragraff 24 rhodder—

"**24.** Gall fframwaith prentisiaeth sylfaen bennu fel un o ofynion tystysgrif Cymru gymhwyster mewn Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol i Lefel 1 o leiaf, oni fydd Llythrennedd Digidol yn amherthnasol i berfformiad effeithiol yn y sgil, y fasnach neu'r

alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/â hi. Fodd bynnag, caniateir eithriadau mewn cysylltiad â phrentisiaid ag anawsterau dysgu neu anabledd dysgu fel yr amlinellir ym mharagraff 16A."

**10.** Ar ôl paragraff 25 mewnosoder—

"**25A.** Gall yr awdurdod dyroddi, yn ôl ei ddisgresiwn, bennu mewn fframwaith y derbynnir cymwysterau rheoleiddiedig sy'n cyfateb i'r cymwysterau procsi a restrir yn y SASW ar gyfer Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Chymhwyso Rhif neu sydd ar lefel uwch na'r cymwysterau procsi hynny. Rhaid i unrhyw gymwysterau o'r fath roi tystiolaeth bod y cymwyseddau a asesir yn y cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn cyfathrebu a rhif wedi eu cwblhau.

**25B.** Pan bennir cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn fframwaith prentisiaeth sylfaen, rhaid i'r fframwaith prentisiaeth bennu fel un o ofynion tystysgrif Cymru y derbynnir un o'r cymwysterau procsi cydnabyddedig a amlinellir yn y tablau isod:

| *Cymhwyster Saesneg* | *Meini prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu neu Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu 1 | Lefel 1 o leiaf |
| TGAU/TGAU Ryngwladol Saesneg - unrhyw un â Saesneg yn yr enw. Gan gynnwys:<br><br>Llenyddiaeth Saesneg, Saesneg Iaith, Astudiaethau Saesneg a Chyfathrebu Saesneg<br><br>Cyrsiau byr, Cyrsiau peilot Cymraeg Iaith<br><br>Dyfarniadau Dwbl (gradd isaf sy'n dderbyniol E neu F)<br><br>(nid yw Saesneg fel Ail Iaith yn dderbyniol) | Gradd 1 o leiaf neu Radd G o leiaf |
| Sgiliau Gweithredol – Saesneg | Lefel 1 o leiaf |
| Safon Uwch/UG Saesneg - unrhyw un â Saesneg yn yr enw. Gan gynnwys: - Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg neu Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, Cymraeg Iaith | Gradd E o leiaf neu radd "O" Safon Uwch cyn 1986 o leiaf (cyfateb i Radd Gyffredin) |
| Lefel O Saesneg, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg neu Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | Gradd E o leiaf neu dystiolaeth cyn 1975 o Lwyddo |
| Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu / Llythrennedd<br><br>(Dim ond portffolio sydd ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Cymraeg. Mae'n ofynnol cyflawni prawf a phortffolio ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Saesneg) | Lefel 1 o leiaf |
| TAU Saesneg | 2 neu 3 |
| Tystysgrif Pre U Llenyddiaeth mewn Saesneg | P3 |
| Tystysgrif Gogledd Iwerddon mewn Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu | Lefel 1 o leiaf |

| *Cymhwyster Saesneg* | *Meini prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Iaith Arwyddion Prydain - cymhwyster rheoleiddiedig (dim ond pan mai Iaith Arwyddion Prydain yw prif iaith y Prentis) | Lefel 1 o leiaf neu Lefel 4 SCQF o leiaf |
| Cymhwyster Uwch Estynedig yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 7) | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Uwch yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 6) | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Cenedlaethol yr Alban 4 mewn Saesneg (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Cymhwyster Canolradd yr Alban 1 mewn Saesneg (SCQF Lefel 4) | Gradd C o leiaf |
| Gradd Safonol Gyffredinol yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 4) | Gradd 3 o leiaf |
| Uned Tystysgrif Genedlaethol yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 6) | Llwyddo |
| Uned Sgiliau Craidd yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Uned Graidd Gweithle yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 4)<br><br>(Cyfathrebu Llafar a chyfathrebu ysgrifenedig) | Llwyddo |
| Uned Genedlaethol yr Alban mewn Llythrennedd (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Gradd Gyffredin yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |
| Rhaglen Blynyddoedd Canol y Fagloriaeth Ryngwladol Lefel 1 / 2 Tystysgrif mewn Iaith a Llenyddiaeth | Gradd 2 o leiaf |
| Cymhwyster Safonol neu Lefel Uwch Diploma’r Fagloriaeth Ryngwladol mewn:<br>• Saesneg A: Llenyddiaeth neu;<br>• Saesneg A: Iaith a Llenyddiaeth neu;<br>• Lenyddiaeth Saesneg a Pherfformio | Gradd 3 o leiaf |
| Mae cymwysterau tramor yn dderbyniol gyda thystiolaeth glir gan NARIC (tystysgrif / datganiad o gymharedd) fod y cymhwyster ar lefel sy’n cyfateb i ofynion sylfaenol y SASW a gwybodaeth ychwanegol sy’n cadarnhau bod y cymhwyster yn cyfateb i TGAU A*-C | Gradd sy’n cyfateb i TGAU A*-C o leiaf |
| Bagloriaeth Cymru – Dim ond pan ddangosir elfen Gyfathrebu Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Hanfodol | Lefel 1 o leiaf |

| *Cymhwyster mathemateg* | *Meini Prawf Lefel/ Gradd* |
|---|---|
| Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif neu Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | Lefel 1 o leiaf |
| TGAU/TGAU Ryngwladol Mathemateg - unrhyw un â Mathemateg yn yr enw. Gan gynnwys:<br>• Cwrs byr, Cyrsiau peilot<br>• Dyfarniadau Dwbl (y lleiaf sy'n dderbyniol yw EF)<br>• Mathemateg Linol, Mathemateg Fodiwlar<br>• Cymhwyso Mathemateg<br>• Dulliau mewn Mathemateg<br>• Mathemateg Ychwanegol<br>• Defnyddio Mathemateg | Gradd 1 o leiaf<br><br>Neu<br><br>Radd G o leiaf |
| Sgiliau Gweithredol – Mathemateg | Lefel 1 o leiaf |
| Safon Uwch/UG Mathemateg - unrhyw un â Mathemateg yn yr enw. Gan gynnwys: Mathemateg Bur, Mathemateg Bellach, Defnyddio Mathemateg | Gradd E o leiaf neu radd "O" Safon Uwch cyn 1986 o leiaf (cyfateb i Radd Gyffredin) |
| Mathemateg Lefel O | Gradd E o leiaf<br><br>Neu dystiolaeth cyn 1975 o lwyddo |
| Sgiliau Allweddol mewn Cymhwyso Rhif (Rhifedd)<br><br>Dim ond portffolio sydd ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Cymraeg, mae'n ofynnol cyflawni prawf a phortffolio ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Saesneg | Lefel 1 o leiaf |
| Tystysgrif Gogledd Iwerddon mewn Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif | Lefel 1 o leiaf |
| TAU Mathemateg | Lefel 2 o leiaf |
| Mathemateg Graidd Lefel 3 (pan fo wedi ei chynnwys mewn tablau perfformiad)<br>• Astudiaethau Mathemategol<br>• Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg<br>• Datrys Problemau Meintiol<br>• Rhesymu Meintiol<br>• Mathemateg yn ei Chyd-destun<br>• Mathemateg ar gyfer Gwaith a Bywyd | Gradd E o leiaf |
| Cymhwyster Mathemateg Annibynnol Lefel 2 - Sylfeini Mathemateg Uwch | Gradd E o leiaf |
| Tystysgrif Pre U mewn Mathemateg neu Fathemateg Bellach | P3 o leiaf |
| Cymhwyster Uwch Estynedig yr Alban mewn Mathemateg neu Fathemateg Bellach | Gradd C o leiaf |

| *Cymhwyster mathemateg* | *Meini Prawf Lefel/ Gradd* |
|---|---|
| Cymhwyster Uwch yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 6) | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Cenedlaethol yr Alban 4 mewn Mathemateg neu Sgiliau Bywyd mewn Mathemateg neu Gymhwyso Mathemateg (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Cymhwyster Canolradd yr Alban 1 mewn Mathemateg (SCQF Lefel 4) | Gradd C o leiaf |
| Gradd Safonol Gyffredinol yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 4) | 3 o leiaf |
| Uned Sgiliau Craidd yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 4) Gwybodaeth Graffigol a Defnyddio Rhif | Llwyddo |
| Uned Sgiliau Craidd Gweithle yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Uned Genedlaethol yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 4) | Llwyddo |
| Gradd Gyffredin yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |
| Rhaglen Blynyddoedd Canol y Fagloriaeth Ryngwladol Lefel 1/2 Tystysgrif mewn Mathemateg neu Fathemateg Estynedig | Gradd 2 o leiaf |
| Cymhwyster Safonol neu Lefel Uwch Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol mewn:<br>• Astudiaethau Mathemategol neu;<br>• Fathemategol neu;<br>• Fathemateg Bellach | Gradd 3 o leiaf |
| Mae cymwysterau tramor yn dderbyniol gyda thystiolaeth glir gan NARIC (tystysgrif / datganiad o gymharedd) fod y cymhwyster ar lefel sy'n cyfateb i ofynion sylfaenol y SASW a gwybodaeth ychwanegol sy'n cadarnhau bod y cymhwyster yn cyfateb i TGAU A*-C | Gradd sy'n cyfateb i TGAU A*-C o leiaf |
| Bagloriaeth Cymru – Dim ond pan ddangosir elfen Cymhwyso Rhif Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Hanfodol | Lefel 1 o leiaf". |

**11.** Yn lle paragraff 35 rhodder—

"**35.** Gall fframwaith prentisiaeth bennu fel un o ofynion tystysgrif Cymru gymhwyster mewn Sgiliau Hanfodol mewn Llythrennedd Digidol i Lefel 2 o leiaf, oni fydd Llythrennedd Digidol yn amherthnasol i berfformiad effeithiol yn y sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/â hi. Fodd bynnag, caniateir eithriadau ar gyfer pobl ag Anawsterau neu Anableddau Dysgu yn ogystal â'r cymwysterau hynny a amlinellir ym mharagraff 16A."

**12.** Yn lle paragraff 36 rhodder—

"**36.** Gall yr awdurdod dyroddi, yn ôl ei ddisgresiwn, bennu mewn fframwaith y derbynnir cymwysterau rheoleiddiedig sy'n cyfateb i'r cymwysterau procsi a restrir yn y SASW ar gyfer Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu a Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif neu sydd ar lefel uwch na'r cymwysterau procsi hynny. Rhaid i unrhyw gymwysterau o'r fath roi tystiolaeth bod y cymwyseddau a asesir yn y cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn cyfathrebu a rhif wedi eu cwblhau**.**

**36A.** Pan bennir cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn fframweithiau prentisiaeth, rhaid i'r fframwaith prentisiaeth bennu fel un o ofynion tystysgrif Cymru y derbynnir un o'r cymwysterau procsi cydnabyddedig a amlinellir yn y tablau isod:

| *Cymhwyster Saesneg* | *Meini Prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu neu Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cyfathrebu 1 | Lefel 2 o leiaf |
| TGAU/TGAU Rhyngwladol Saesneg - unrhyw un â Saesneg yn yr enw. Gan gynnwys:<br>• Llenyddiaeth Saesneg, Saesneg Iaith, Astudiaethau Saesneg a Chyfathrebu Saesneg<br>• Cymraeg Iaith<br>• Cyrsiau byr, Cyrsiau peilot<br>• Dyfarniadau Dwbl (gradd isaf sy'n dderbyniol C/D)<br><br>(nid yw Saesneg fel Ail Iaith yn dderbyniol) | Gradd 4 o leiaf neu Radd C o leiaf |
| Sgiliau Gweithredol – Saesneg | Lefel 2 o leiaf |
| Safon Uwch/UG Saesneg - unrhyw un â Saesneg yn yr enw. Gan gynnwys: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg neu Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, Cymraeg Iaith | Gradd E o leiaf neu radd "O" Safon Uwch cyn 1986 o leiaf (cyfateb i Radd Gyffredin) |
| Lefel O Saesneg, Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg neu Saesneg Iaith a Llenyddiaeth | Gradd C o leiaf neu dystiolaeth cyn 1975 o Lwyddo |
| Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu / Llythrennedd<br><br>(Dim ond portffolio sydd ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Cymraeg. Mae'n ofynnol cyflawni prawf a phortffolio ar gyfer Sgiliau Allweddol mewn Saesneg) | Lefel 2 o leiaf |
| TAU Saesneg | Gradd 1 o leiaf |
| Tystysgrif Pre U Llenyddiaeth mewn Saesneg | P3 |
| Tystysgrif Gogledd Iwerddon mewn Sgiliau Allweddol mewn Cyfathrebu | Lefel 2 o leiaf |
| Iaith Arwyddion Prydain - cymhwyster rheoleiddiedig (dim ond pan mai Iaith Arwyddion Prydain yw prif iaith y Prentis) | Lefel 2 o leiaf neu Lefel 5 SCQF o leiaf |
| Cymhwyster Uwch Estynedig yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 7) | Gradd C o leiaf |

| *Cymhwyster Saesneg* | *Meini Prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Cymhwyster Uwch yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 6) | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Cenedlaethol yr Alban 5 mewn Saesneg (SCQF Lefel 5) | Gradd D o leiaf |
| Cymhwyster Canolradd yr Alban 2 mewn Saesneg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |
| Gradd Safonol Gyffredinol yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 5) | 2 o leiaf |
| Uned Tystysgrif Genedlaethol yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 6) | Llwyddo |
| Uned Sgiliau Craidd yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 5) | Llwyddo |
| Uned Graidd Gweithle yr Alban mewn Cyfathrebu (SCQF Lefel 5)<br><br>(Cyfathrebu Llafar A chyfathrebu ysgrifenedig) | Llwyddo |
| Uned Genedlaethol yr Alban mewn Llythrennedd (SCQF Lefel 5) | Llwyddo |
| Gradd Gyffredin yr Alban mewn Saesneg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |
| Rhaglen Blynyddoedd Canol y Fagloriaeth Ryngwladol Lefel 1 / 2 Tystysgrif mewn Iaith a Llenyddiaeth | Gradd 3 o leiaf |
| Cymhwyster Safonol neu Lefel Uwch Diploma’r Fagloriaeth Ryngwladol mewn:<br>• Saesneg A: Llenyddiaeth neu;<br>• Saesneg A: Iaith a Llenyddiaeth neu;<br>• Lenyddiaeth Saesneg a Pherfformio | Gradd 3 o leiaf |
| Mae cymwysterau tramor yn dderbyniol gyda thystiolaeth glir gan NARIC (tystysgrif / datganiad o gymharedd) fod y cymhwyster ar lefel sy’n cyfateb i ofynion sylfaenol y SASW a gwybodaeth ychwanegol sy’n cadarnhau bod y cymhwyster yn cyfateb i TGAU A*-C | Gradd sy’n cyfateb i TGAU A*-C o leiaf |
| Bagloriaeth Cymru –Dim ond pan ddangosir elfen Gyfathrebu Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Hanfodol | Lefel 2 o leiaf |

| *Cymhwyster Mathemateg* | *Meini prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Sgiliau Hanfodol mewn Cymhwyso Rhif neu Sgiliau Hanfodol Cymru mewn Cymhwyso Rhif | Lefel 2 o leiaf |
| TGAU/TGAU Ryngwladol Mathemateg - unrhyw un â Mathemateg yn yr enw. Gan gynnwys: | Gradd 4 o leiaf<br><br>neu |

| *Cymhwyster Mathemateg* | *Meini prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| • Cwrs byr, Cyrsiau peilot<br>• Dyfarniadau Dwbl (yr isaf sy'n dderbyniol yw CD)<br>• Mathemateg Linol, Mathemateg Fodiwlar<br>• Cymhwyso Mathemateg<br>• Dulliau mewn Mathemateg<br>• Mathemateg Ychwanegol<br>• Defnyddio Mathemateg | Radd C o leiaf |
| Sgiliau Gweithredol – Mathemateg | Lefel 2 o leiaf |
| Safon Uwch/UG Mathemateg - unrhyw un â Mathemateg yn yr enw. Gan gynnwys: Mathemateg Bur, Mathemateg Bellach, Defnyddio Mathemateg | Gradd E o leiaf neu radd "O" Safon Uwch cyn 1986 o leiaf ( cyfateb i Radd Gyffredin) |
| Mathemateg Lefel O | Gradd C o leiaf<br><br>Neu dystiolaeth cyn 1975 o lwyddo |
| Sgiliau Allweddol mewn Cymhwyso Rhif (Rhifedd) | Lefel 2 o leiaf |
| Tystysgrif Gogledd Iwerddon mewn Sgiliau Allweddol mewn Cymhwyso Rhif | Lefel 2 o leiaf |
| TAU Mathemateg | Lefel 1 o leiaf |
| Mathemateg Graidd Lefel 3 (pan fo wedi ei chynnwys yn y tablau perfformiad)<br>• Astudiaethau Mathemategol<br>• Defnyddio a Chymhwyso Mathemateg<br>• Datrys Problemau Meintiol<br>• Rhesymu Meintiol<br>• Mathemateg yn ei Chyd-destun<br>• Mathemateg ar gyfer Gwaith a Bywyd | Gradd E o leiaf |
| Cymhwyster Mathemateg Annibynnol Lefel 2 - Sylfeini Mathemateg Uwch | Gradd C o leiaf |
| Tystysgrif Pre U mewn Mathemateg neu Fathemateg Bellach | P3 o leiaf |
| Cymhwyster Uwch Estynedig yr Alban mewn Mathemateg | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Uwch yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 6) | Gradd C o leiaf |
| Cymhwyster Cenedlaethol yr Alban 5 mewn Mathemateg neu Sgiliau Bywyd mewn Mathemateg neu Gymhwyso Mathemateg (SCQF Lefel 5) | Gradd D o leiaf |
| Cymhwyster Canolradd yr Alban 2 mewn Mathemateg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |

| *Cymhwyster Mathemateg* | *Meini prawf Lefel / Gradd* |
|---|---|
| Gradd Safonol Gyffredinol yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 5) | 2 o leiaf |
| Uned Sgiliau Craidd yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 5) Gwybodaeth Graffigol a Defnyddio Rhif | Llwyddo |
| Uned Sgiliau Craidd Gweithle yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 5) | Llwyddo |
| Uned Genedlaethol yr Alban mewn Rhifedd (SCQF Lefel 5) | Llwyddo |
| Gradd Gyffredin yr Alban mewn Mathemateg (SCQF Lefel 5) | Gradd C o leiaf |
| Rhaglen Blynyddoedd Canol y Fagloriaeth Ryngwladol Lefel 1/2 Tystysgrif mewn Mathemateg neu Fathemateg Estynedig | Gradd 3 o leiaf |
| Cymhwyster Safonol neu Lefel Uwch Diploma'r Fagloriaeth Ryngwladol mewn:<br><br>Astudiaethau Mathemategol; neu<br><br>Fathemategol; neu<br><br>Fathemateg Bellach | Gradd 3 o leiaf |
| Mae cymwysterau tramor yn dderbyniol gyda thystiolaeth glir gan NARIC (tystysgrif / datganiad o gymharedd) fod y cymhwyster ar lefel sy'n cyfateb i ofynion sylfaenol y SASW a gwybodaeth ychwanegol sy'n cadarnhau bod y cymhwyster yn cyfateb i TGAU A*-C | Gradd sy'n cyfateb i TGAU A*-C o leiaf |
| Bagloriaeth Cymru –Dim ond pan ddangosir elfen Cymhwyso Rhif Cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru neu Sgiliau Hanfodol | Lefel 2 o leiaf". |

**13.** Yn lle'r pennawd ym mharagraff 38 rhodder "Fframweithiau Prentisiaeth Uwch (Lefelau 4 a 5)".

**14.** Ar ôl paragraff 42 mewnosoder—

| *"Prentisiaethau Gradd neu Broffesiynol (Lefel 6 a 7) – Cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r sector* | *Cyfeirnodau adran* |
|---|---|
| **43**. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gradd neu broffesiynol nodi'r cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol y mae'n rhaid i'r prentis eu cyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru, a'r cymhwyster sy'n ofynnol er mwyn dangos cymhwysedd wrth gyflawni'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/â hi. Rhaid i'r cymhwyster | Adran 31(2)(c)(iii) |

| *"Prentisiaethau Gradd neu Broffesiynol (Lefel 6 a 7) – Cymwysterau sy'n gysylltiedig â'r sector* | *Cyfeirnodau adran* |
|---|---|
| cymwyseddau fod ar lefel y fframwaith a bennir a chael ei ategu gan Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (SGC) lle y maent yn bodoli, neu safonau ar gyfer y diwydiant cyfan neu safonau proffesiynol lle nad ydynt yn bodoli. | |
| **44**. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gradd neu broffesiynol nodi cymhwyster gwybodaeth dechnegol y mae'n rhaid i'r prentis ei gyflawni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer tystysgrif prentisiaeth Cymru. Cymhwyster gwybodaeth dechnegol yw'r cymhwyster sy'n ofynnol i ddangos bod y sgiliau technegol, yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cysyniadau damcaniaethol a'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r diwydiant a'i farchnad yn berthnasol i'r sgil, y fasnach neu'r alwedigaeth y mae'r fframwaith yn ymwneud ag ef/â hi wedi eu cyflawni. | Adran 31(2)(c)(ii) |
| **45**. Rhaid i fframwaith prentisiaeth gradd a phroffesiynol nodi:<br><br>cymhwyster cymwyseddau galwedigaethol a chymhwyster gwybodaeth dechnegol ar wahân ar Lefel 6 o leiaf; neu<br><br>gymhwyster integredig ar Lefel 6 o leiaf sy'n cyfuno cymwyseddau galwedigaethol ac elfennau gwybodaeth dechnegol y caiff pob elfen ei hasesu ar wahân ynddynt; neu<br><br>bennu cymhwyster gwybodaeth dechnegol berthnasol a gydnabyddir gan gorff proffesiynol sy'n cynrychioli'r maes galwedigaethol. | Adran 31(2)(a)<br><br>Adran 31(2)(c)(iii) |

| *Sgiliau Hanfodol* | |
|---|---|
| **46.** Nid oes unrhyw ofynion sgiliau hanfodol ar gyfer fframweithiau prentisiaeth Gradd a Phroffesiynol. | |

| *Hyfforddiant mewn swydd a hyfforddiant y tu allan i'r gwaith* | |
|---|---|
| **47.** Mae'r gofynion fel y maent ar gyfer fframwaith prentisiaeth sylfaen ar Lefel 2 | Adran 31(2)(b)". |

---

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn wedi ei wneud o dan adran 29(1) o Ddeddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 ("Deddf 2009"). Mae'r Gorchymyn hwn yn addasu Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (y "SASW") y rhoddwyd effaith iddi yn wreiddiol ym mis Mai 2013 gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) 2013, ac a addaswyd wedyn yn 2016 gan Orchymyn Prentisiaethau (Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru) (Addasu) 2016.

Mae'r SASW yn pennu'r gofynion y mae rhaid eu bodloni er mwyn i fframweithiau prentisiaethau Cymreig cydnabyddedig gael eu dyroddi o dan adran 19(1) o Ddeddf 2009.

Mae'r addasiadau a wneir gan y Gorchymyn hwn yn cynnwys sicrhau hygyrchedd ar gyfer y rheini sydd ag anhawster neu anabledd dysgu.

Er mwyn helpu'r darllenydd mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi fersiwn wedi ei chydgrynhoi o'r SASW sy'n ymgorffori'r addasiadau a ddangosir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn.